OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2017 Rhif 1041 (Cy. 270)

# 2017 No. 1041 (W. 270)

# DŴR, CYMRU

# WATER, WALES

## Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017

## The Private Water Supplies (Wales) Regulations 2017

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC ar ansawdd dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl, (OJ Rhif L 330, 5.12.1998, t. 32) mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat a Chyfarwyddeb y Cyngor 2013/51/Euratom sy'n nodi'r gofynion ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd o ran sylweddau ymbelydrol mewn dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl (OJ Rhif L 296, 7.11.2013, t. 12). Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 (O.S. 2010/66 (Cy. 16)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i gyflenwadau dŵr preifat (fel y'u diffinnir yn rheoliad 2) a fwriedir i'w yfed gan bobl. Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaethau amrywiol mewn perthynas â safonau dŵr ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat. Mae'n diffinio o dan ba amgylchiadau y mae dŵr i'w ystyried yn "iachus" (rheoliad 4 a Rhan 1 o Atodlen 1). Mae hefyd yn nodi'r gofynion sy'n gymwys pan ddiheintir dŵr (rheoliad 5) ac yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i gynnal asesiad risg ar gyfer pob cyflenwad dŵr preifat yn ei ardal (rheoliad 6).

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations implement Council Directive 98/83/EC on the quality of water intended for human consumption (OJ No. L 330, 5.12.1998, p. 32) in relation to private water supplies and Council Directive 2013/51/Euratom laying down requirements for the protection of the health of the general public with regard to radioactive substances in water intended for human consumption (OJ No. L 296, 7.11.2013, p. 12). These Regulations revoke and replace the Private Water Supplies (Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/66 (W. 16)).

These Regulations apply to private water supplies (as defined in regulation 2) intended for human consumption. Part 1 of the Regulations makes miscellaneous provision in relation to water standards for private water supplies. It defines the circumstances in which water is to be regarded as "wholesome" (regulation 4 and Part 1 of Schedule 1). It also sets out the requirements which apply where water is disinfected (regulation 5) and imposes a duty on each local authority to carry out a risk assessment of every private water supply in its area (regulation 6).

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i fonitro cyflenwadau dŵr preifat (rheoliadau 7 i 13 ac Atodlen 2) ac i sicrhau bod pob sampl a gymerir yn cael ei dadansoddi yn y ffyrdd a nodir yn Atodlen 4 (rheoliad 14). Mae'n nodi'r gofynion monitro penodol ar gyfer sylweddau ymbelydrol (dos dynodol, radon a thritiwm) (rheoliadau 12 a 13 ac Atodlen 3). Nodir y paramedrau dangosyddion ar gyfer sylweddau ymbelydrol yn Nhabl D yn Rhan 3 o Atodlen 1. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud a chadw cofnodion ar gyfer pob cyflenwad dŵr preifat yn ei ardal (rheoliad 16 ac Atodlen 5) ac i anfon copi o'r cofnodion i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ac, ar gais, at Weinidogion Cymru (rheoliad 16).

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn nodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn os nad yw'r dŵr yn iachus neu os yw'n peri perygl posibl i iechyd dynol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth i'r bobl hynny sy'n debygol o yfed y dŵr (rheoliad 17) ac i gynnal ymchwiliad (rheoliad 18). Os yw'r dŵr yn afiachus oherwydd y pibwaith o fewn mangre ddomestig, rhaid i awdurdodau lleol gynnig cyngor ar y mesurau sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd dynol. Caiff awdurdodau lleol, o dan amgylchiadau diffiniedig, awdurdodi safonau gwahanol am gyfnod cyfyngedig (rheoliad 19).

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno hysbysiad i'r "person perthnasol" (fel y'i diffinnir yn rheoliad 2) os yw unrhyw gyflenwad yn peri perygl posibl i iechyd dynol (rheoliad 20) ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer apelau a chosbau mewn cysylltiad â hysbysiadau o'r fath (rheoliadau 21 a 22).

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu ffioedd (rheoliad 23 ac Atodlen 6), dirymiadau (rheoliad 24) a diwygiadau canlyniadol (rheoliad 25). Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau trosiannol (rheoliad 26).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Part 2 of the Regulations places a duty on local authorities to monitor private water supplies (regulations 7 to 13 and Schedule 2) and to ensure that each sample taken is analysed in the ways set out in Schedule 4 (regulation 14). It sets out the specific monitoring requirements for radioactive substances (indicative dose, radon and tritium) (regulation 12 and 13 and Schedule 3). The indicator parameters for radioactive substances are set out in Table D in Part 3 of Schedule 1. It also requires the local authority to make and keep records for every private water supply in its area (regulation 16 and Schedule 5) and to send a copy of the records to the Drinking Water Inspectorate and upon request, to the Welsh Ministers (regulation 16).

Part 3 of the Regulations sets out the procedures to be followed if the water is not wholesome, or it constitutes a potential danger to human health. It requires local authorities to provide information to those people likely to consume the water (regulation 17) and to carry out an investigation (regulation 18). If the cause of the unwholesome water is in the pipework within a domestic premises, local authorities must offer advice on measures necessary for the protection of human health. Local authorities may, in defined circumstances, grant a time-limited authorisation of different standards (regulation 19).

Part 4 of the Regulations requires a notice to be served on the "relevant person" (as defined in regulation 2) if any supply constitutes a potential danger to human health (regulation 20) and makes provision for appeals and penalties in connection with such notices (regulations 21 and 22).

Part 5 of the Regulations makes provision for the payment of fees (regulation 23 and Schedule 6), revocations (regulation 24) and consequential amendments (regulation 25). It also contains transitional provisions (regulation 26).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

# 2017 Rhif 1041 (Cy. 270)

# DŴR, CYMRU

## Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Hydref 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *30 Hydref 2017* |
| *Yn dod i rym* | *20 Tachwedd 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas ag ansawdd dŵr a fwriedir at ddibenion domestig neu ar gyfer ei ddefnyddio mewn menter cynhyrchu bwyd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal yr ymgynghoriad sy'n ofynnol o dan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n nodi egwyddorion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn nodi'r gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**).

(**1**) O.S. 2004/3328, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/850, O.S. 2007/1349, O.S. 2008/301, O.S. 2012/1759 ac O.S. 2014/1362. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r Gorchymyn hwnnw bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(**3**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 652/2014 (OJ Rhif L 189, 27.6.14, t. 1).



# 2017 No. 1041 (W. 270)

# WATER, WALES

## The Private Water Supplies (Wales) Regulations 2017

| | |
|---|---|
| *Made* | *25 October 2017* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *30 October 2017* |
| *Coming into force* | *20 November 2017* |

The Welsh Ministers are designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to the quality of water intended for domestic purposes or for use in food production undertaking.

The Welsh Ministers have carried out the consultation required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**3**).

(**1**) S.I. 2004/3328, as amended by S.I. 2005/850, S.I. 2007/1349, S.I. 2008/301, S.I. 2012/1759 and S.I. 2014/1362. The functions conferred on the National Assembly for Wales by means of that Order are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**2**) 1972 c. 68; section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and by Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7).

(**3**) OJ No. L 31, 1.2.2002, p. 1, as last amended by Regulation (EU) No. 652/2014 (OJ No. L 189, 27.6.14, p. 1).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adrannau 67, 77(3) a (4) a 213(2) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**1**).

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972 and sections 67, 77(3) and (4) and 213(2) of the Water Industry Act 1991(**1**).

# RHAN 1

## Safonau dŵr

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 20 Tachwedd 2017.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "asesiad risg" ("*risk assessment*") yw asesiad risg a gyflawnir o dan reoliad 6;

ystyr "crynodiad neu werth rhagnodedig" ("*prescribed concentration or value*") mewn

# PART 1

## Water standards

### Title, application and commencement

**1.** The title of these Regulations is the Private Water Supplies (Wales) Regulations 2017; they apply in relation to Wales and come into force on 20 November 2017.

### Interpretation

**2.** In these Regulations—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Water Industry Act 1991;

(**1**) 1991 p. 56. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 67 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") (a) ar gyfer gwneud rheoliadau ynghylch dŵr a gyflenwir drwy ddefnyddio system gyflenwi ymgymerwr dŵr, mewn perthynas â system gyflenwi unrhyw ymgymerwr dŵr sydd â'i ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a (b) ar gyfer gwneud rheoliadau ynghylch dŵr a gyflenwir ac eithrio drwy ddefnyddio system gyflenwi ymgymerwr dŵr, o ran Cymru, gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ("Gorchymyn 1999"); trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 77 o'r Ddeddf honno i'r Cynulliad o ran Cymru gan yr un darpariaethau yng Ngorchymyn 1999; yr oedd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 213 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 28 o Atodlen 1 i Ddeddf Cystadleuaeth a Gwasanaeth (Cyfleustodau) 1992 (p. 43), gan adran 36(2) o Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37) a pharagraff 49(3) o Atodlen 8 iddi a chan adran 56 o Ddeddf Dŵr 2014 (p. 21) a pharagraff 119(4) o Atodlen 7 iddi) o'r Ddeddf honno yn arferadwy gan y Cynulliad i'r un graddau ag y gwnaed y pwerau y mae'r adran honno'n gymwys iddynt yn arferadwy gan y Cynulliad, yn rhinwedd yr un ddarpariaeth yng Ngorchymyn 1999: *gweler* y cofnod yn Atodlen 1 i Orchymyn 1999 ar gyfer y Ddeddf fel y'i hamnewidiwyd gan baragraff (e) o Atodlen 3 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) ac fel y'i diwygiwyd gan adran 100(2) o Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37); mae offerynnau diwygio eraill, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol. Mae adran 100(6) o Ddeddf Dŵr 2003 yn trin y cyfeiriadau yn Atodlen 1 i Orchymyn 1999 at adrannau penodol o'r Ddeddf fel pe baent yn gyfeiriadau at yr adrannau hynny fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003. *Gweler* adran 219(4A) o'r Ddeddf, fel y'i mewnosodwyd gan adran 101(1) o Ddeddf Dŵr 2003, a pharagraffau 2 a 50 o Atodlen 8 iddi, am ddiffiniad o "supply system". Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**1**) 1991 c. 56. The functions of the Secretary of State under section 67 were transferred to the National Assembly for Wales ("the Assembly") (a) for the making of regulations concerning water supplied using the supply system of a water undertaker, in relation to the supply system of any water undertaker whose area is wholly or mainly in Wales and (b) for the making of regulations concerning water supplied other than using the supply system of a water undertaker, in relation to Wales, by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) ("the 1999 Order"); the functions of the Secretary of State under section 77 of that Act were transferred to the Assembly in relation to Wales by the same provisions of the 1999 Order; the functions of the Secretary of State under section 213 (as amended by paragraph 28 of Schedule 1 to the Competition and Service (Utilities) Act 1992 (c. 43), by section 36(2) of, and paragraph 49(3) of Schedule 8 to, the Water Act 2003 (c. 37) and by section 56 of, and paragraph 119(4) of Schedule 7 to, the Water Act 2014 (c. 21))) of that Act were exercisable by the Assembly to the same extent as the powers to which that section applies were made exercisable by the Assembly by virtue of the same provision of the 1999 Order: *see* the entry in Schedule 1 to the 1999 Order for the Act as substituted by paragraph (e) of Schedule 3 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253) and amended by section 100(2) of the Water Act 2003 (c. 37); there are other amending instruments but none are relevant. References in Schedule 1 to the 1999 Order to specific sections of the Act are treated by section 100(6) of the Water Act 2003 as referring to those sections as amended by the Water Act 2003. *See* section 219(4A) of the Act as inserted by section 101(1) of, and paragraphs 2 and 50 of Schedule 8 to, the Water Act 2003 for the definition of "supply system". By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, the functions conferred on the Assembly are now exercisable by the Welsh Ministers.

perthynas ag unrhyw baramedr, yw'r crynodiad neu'r gwerth uchaf neu isaf a bennir mewn perthynas â'r paramedr hwnnw yn y Tablau yn Atodlen 1 fel y'u mesurir drwy gyfeirio at yr uned fesur a bennir felly, ac a ddarllenir, pan fo'n briodol, gyda'r nodiadau i'r Atodlen honno a'r Tablau hynny;

ystyr "cyflenwad dŵr preifat" ("*private water supply*") yw cyflenwad dŵr ac eithrio cyflenwad a ddarperir yn uniongyrchol gan ymgymerwr dŵr(**1**) neu drwyddedai cyflenwi dŵr(**2**), ac sy'n cynnwys yr holl asedau ffisegol o'r man tynnu dŵr i'r man defnyddio, gan gynnwys yr holl bibellau, ffitiadau a thanciau cysylltiedig;

ystyr "defnyddiwr" ("*consumer*") yw person y darperir cyflenwad dŵr preifat iddo at ddibenion yfed y dŵr gan bobl;

ystyr "diheintio" ("*disinfection*") yw proses o drin dŵr er mwyn dileu pob micro-organedd pathogenig a phob paraseit pathogenig a fyddai fel arall yn bresennol yn y dŵr, neu eu gwneud yn anniweidiol i iechyd dynol;

ystyr "dos dangosol" ("*indicative dose*") yw'r dos effeithiol cyflawnedig ar gyfer 1 flwyddyn o amlyncu o ganlyniad i'r holl radioniwclidau o darddiad naturiol ac artiffisial y canfyddwyd eu bod yn bresennol mewn cyflenwad dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl, ac eithrio tritiwm, potasiwm-40, radon a chynhyrchion dadfeilio radon byrhoedlog;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Diwydiant Dŵr 1991;

mae i "monitro ar gyfer paramedrau Grŵp A" ("*monitoring for Group A parameters*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 1 o Atodlen 2;

mae i "monitro ar gyfer paramedrau Grŵp B" ("*monitoring for Group B parameters*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 3 o Atodlen 2;

ystyr "NTU" ("*NTU*") yw Uned Cymylogrwydd Neffelomedrig;

ystyr "paramedr" ("*parameter*") yw priodoledd, elfen, organedd neu sylwedd a restrir yng ngholofn gyntaf y Tablau yn Atodlen 1 wedi eu darllen, pan fo'n briodol, gyda'r nodiadau i'r Atodlen honno a'r Tablau hynny;

ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*") yw—

"the 2010 Regulations" ("*Rheoliadau 2010*") means the Private Water Supplies (Wales) Regulations 2010(**1**);

"the Chief Inspector of Drinking Water" ("*y Prif Arolygydd Dŵr Yfed*") means the person designated by the Welsh Ministers under section 86(1B) of the Act (assessors for the enforcement of water quality)(**2**);

"consumer" ("*defnyddiwr*") mean a person to whom a private water supply is provided for human consumption purposes;

"disinfection" ("*diheintio*") means a process of water treatment to remove, or render harmless to human health, every pathogenic micro-organism and pathogenic parasite that would otherwise be present in the water;

"domestic tenancy" ("*tenantiaeth ddomestig*") has the same meaning as in section 2 of the Housing (Wales) Act 2014 (meaning of key terms)(**3**);

"indicative dose" ("*dos dangosol*") means the committed effective dose for 1 year of ingestion resulting from all the radionuclides whose presence has been detected in a supply of water intended for human consumption, of natural and artificial origin, excluding tritium, potassium−40, radon and short-lived radon decay products;

"monitoring for Group A parameters" ("*monitro ar gyfer paramedrau Grŵp A*") has the meaning given in paragraph 1 of Schedule 2;

"monitoring for Group B parameters" ("*monitro ar gyfer paramedrau Grŵp B*") has the meaning given in paragraph 3 of Schedule 2;

"NTU" ("*NTU*") means Nephelometric Turbidity Unit;

"parameter" ("*paramedr*") means a property, element, organism or substance listed in the first column of the Tables in the Schedule 1 as read, where appropriate, with the notes to that Schedule and those Tables;

"prescribed concentration or value" ("*crynodiad neu werth rhagnodedig*") in relation to any parameter, means the maximum or minimum concentration or value specified in relation to that parameter in the Tables in Schedule 1 as measured by reference to the unit of measurement so specified, and as read, where appropriate, with the notes to that Schedule and those Tables;

(**1**) *Gweler* adran 6 o'r Ddeddf am ystyr "water undertaker".
(**2**) *Gweler* adran 17A o'r Ddeddf am ystyr "water supply licensee". Amnewidiwyd adran 17A gan adran 1(1) o Ddeddf Dŵr 2014 (p. 21).

(**1**) S.I. 2010/66 (W. 16), as amended by S.I. 2010/147 (W. 22), S.I. 2010/1384 (W. 123), S.I. 2013/235, S.I. 2015/1867 (W. 274), S.I. 2016/411 (W. 129), and S.I. 2017/506.
(**2**) Section 86(1B) was inserted by section 57(3) of the Water Act 2003 (c. 37).
(**3**) 2014 anaw 7.

(a) perchennog a meddiannydd (a gaiff fod yr un person neu'n bersonau gwahanol) mangreoedd y cyflenwir dŵr iddynt drwy gyflenwad dŵr preifat at ddibenion domestig neu ddibenion cynhyrchu bwyd;

(b) perchennog a meddiannydd (a gaiff fod yr un person neu'n bersonau gwahanol) tir y mae unrhyw ran o'r cyflenwad wedi ei leoli arno;

(c) unrhyw berson arall sy'n arfer pwerau rheoli neu reolaeth mewn perthynas â'r cyflenwad hwnnw;

ystyr "y Prif Arolygydd Dŵr Yfed" ("*the Chief Inspector of Drinking Water*") yw'r person a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 86(1B) o'r Ddeddf (aseswyr ar gyfer gorfodi ansawdd dŵr)(**1**);

ystyr "Rheoliadau 2010" ("*the 2010 Regulations*") yw Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010(**2**);

mae i "tenantiaeth ddomestig" ("*domestic tenancy*") yr un ystyr ag a roddir yn adran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (ystyr y prif dermau)(**3**).

"private water supply" ("*cyflenwad dŵr preifat*") means a supply of water other than a supply provided directly by a water undertaker(**1**) or water supply licensee(**2**), and which is comprised of all physical assets from the point of abstraction to the point of use, including associated pipes, fittings and tanks;

"relevant person" ("*person perthnasol*") means—

(a) the owner and occupier (who may be the same or different persons) of premises which are supplied with water for domestic or food production purposes by means of a private water supply;

(b) the owner and occupier (who may be the same or different persons) of land on which any part of the supply is situated;

(c) any other person who exercises powers of management or control in relation to that supply;

"risk assessment" ("*asesiad risg*") means a risk assessment carried out under regulation 6.

**Cwmpas**

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat a fwriedir i'w yfed gan bobl; ac at y dibenion hyn, ystyr "dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl" yw—

(a) pob dŵr, naill ai yn ei gyflwr gwreiddiol neu ar ôl ei drin, a fwriedir ar gyfer yfed, coginio, paratoi bwyd neu ddibenion domestig eraill, beth bynnag fo'i darddiad a pha un ai y'i cyflenwir o rwydwaith dosbarthu, neu o dancer neu mewn poteli neu gynwysyddion;

**Scope**

**3.**—(1) These Regulations apply in relation to private water supplies intended for human consumption; and for these purposes "water intended for human consumption" means—

(a) all water either in its original state or after treatment, intended for drinking, cooking, food preparation or other domestic purposes, regardless of its origin and whether it is supplied from a distribution network, from a tanker, or in bottles or containers;

(**1**) Mewnosodwyd adran 86(1B) gan adran 57(3) o Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37).
(**2**) O.S. 2010/66 (Cy. 16) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/147 (Cy. 22), O.S. 2010/1384 (Cy. 123), O.S. 2013/235, O.S. 2015/1867 (Cy. 274), O.S. 2016/411 (Cy. 129) ac O.S. 2017/506.
(**3**) 2014 dccc 7.

(**1**) *See* section 6 of the Act for the meaning of "water undertaker".
(**2**) *See* section 17A of the Act for the meaning of "water supply licensee". Section 17A was substituted by section 1(1) of the Water Act 2014 (c. 21).

(b) pob dŵr a ddefnyddir mewn unrhyw fenter cynhyrchu bwyd ar gyfer gweithgynhyrchu, prosesu, cyffeithio neu farchnata cynhyrchion neu sylweddau a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl oni bai, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch hylendid bwyd(**1**), bod yr awdurdod cymwys(**2**) wedi ei fodloni nad yw ansawdd y dŵr yn gallu effeithio ar iachusrwydd y bwyd yn ei ffurf orffenedig.

(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â—

(a) dŵr y mae Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015(**3**) yn gymwys iddo;

(b) dŵr sy'n gynnyrch meddyginiaethol yn yr ystyr a roddir i "medicinal product" yn Neddf Meddyginiaethau 1968(**4**);

(c) dŵr a ddefnyddir yn unig ar gyfer golchi cnwd ar ôl ei gynaeafu, ac nad yw'n effeithio ar addasrwydd y cnwd, nac unrhyw fwyd neu ddiod sy'n tarddu o'r cnwd, ar gyfer ei fwyta neu ei yfed gan bobl.

**Iachusrwydd**

**4.**—(1) Mae cyflenwad dŵr preifat i'w ystyried yn iachus os bodlonir yr holl amodau a ganlyn—

(a) nad yw'n cynnwys unrhyw ficro-organedd, parasit neu sylwedd mewn crynodiad neu werth a fyddai, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag unrhyw sylwedd arall, yn peri perygl posibl i iechyd dynol;

(b) ei fod yn cydymffurfio â'r crynodiad neu'r gwerth rhagnodedig ar gyfer pob paramedr; ac

(c) bod y dŵr yn bodloni'r fformiwla "[nitrad]/50 + [nitraid]/3 ≤ 1", pan fo'r bachau petryal yn dynodi'r crynodiadau mewn mg/1 ar gyfer nitrad (NO3) a nitraid (NO2).

(2) Ystyr cyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at ddŵr afiachus yw nad yw'r gofyniadau ym mharagraff (1) wedi eu bodloni.

(**1**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 219/2009 (OJ Rhif L 87, 31.3.2009, t. 109).
(**2**) Yr awdurdod cymwys at ddibenion y Rheoliad hwn yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd; *gweler* O.S. 2006/31 (Cy. 5).
(**3**) O.S. 2015/1867 (Cy. 274).
(**4**) 1968 p. 67.

(b) all water used in any food production undertaking for the manufacture, processing, preservation or marketing of products or substances intended for human consumption unless, in accordance with Regulation (EC) No. 852/2004 of the European Parliament and of the Council on the hygiene of foodstuffs(**1**), the competent authority(**2**) is satisfied that the quality of the water cannot affect the wholesomeness of the foodstuff in its finished form.

(2) These Regulations do not apply in relation to—

(a) water to which the Natural Mineral Water, Spring Water and Bottled Drinking Water (Wales) Regulations 2015(**3**) apply;

(b) water that is a medicinal product within the meaning of the Medicines Act 1968(**4**);

(c) water used solely for washing a crop after it has been harvested and that does not affect the fitness for human consumption of the crop or of any food or drink derived from the crop.

**Wholesomeness**

**4.**—(1) A private water supply is to be regarded as wholesome if all the following conditions are met—

(a) it does not contain any micro-organism, parasite or substance, alone or in conjunction with any other substance, at a concentration or value that would constitute a potential danger to human health;

(b) it complies with the prescribed concentration or value for each parameter; and

(c) the water satisfies the formula "[nitrate]/50 + [nitrite]/3 ≤ 1", where the square brackets signify the concentrations in mg/1 for nitrate (NO3) and nitrite (NO2).

(2) A reference in these Regulations to water being unwholesome means the requirements in paragraph (1) not being met.

(**1**) OJ No. L 139, 30.4.2004, p. 1 as last amended by Regulation (EC) No. 219/2009 (OJ No. L 87, 31.3.2009, p. 109).
(**2**) The competent authority for the purpose of this Regulation is the Food Standards Agency; *see* S.I. 2006/31 (W. 5).
(**3**) S.I. 2015/1867 (W. 274).
(**4**) 1968 c. 67.

(b) bodloni gofynion y Canllawiau Diogelwch Cyflenwadau Dŵr Yfed ar gyfer Rheoli Risgiau ac Argyfyngau(**1**); ac

(c) ystyried canlyniadau'r rhaglenni monitro a sefydlwyd gan ail baragraff Erthygl 7(1) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor(**2**).

(5) Rhaid i awdurdod lleol, o fewn 12 mis o gynnal yr asesiad risg, ddarparu crynodeb o ganlyniadau'r asesiad hwnnw i Weinidogion Cymru.

# RHAN 2

## Monitro

### Monitro

**7.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol fonitro'r holl gyflenwadau dŵr preifat yn ei ardal yn unol â'r Rhan hon wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 77(1) o'r Ddeddf (swyddogaethau cyffredinol awdurdodau lleol mewn perthynas ag ansawdd dŵr).

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol gyflawni'r rhwymedigaeth ym mharagraff (1) drwy sefydlu rhaglen fonitro ar ffurf naill ai—

(a) casglu a dadansoddi samplau dŵr ar wahân;

(b) mesuriadau a gofnodir drwy broses fonitro barhaus; neu

(c) cyfuniad o'r dulliau yn is-baragraffau (a) a (b).

(3) Caiff rhaglenni monitro gynnwys y naill neu'r llall o'r dulliau a ganlyn, neu'r ddau ohonynt—

(a) edrych ar gofnodion o weithrediad yr offer a'i statws o ran cynnal a chadw;

(b) arolygu'r dalgylch, a'r seilwaith tynnu, trin, storio a dosbarthu dŵr.

(**1**) EN 15975-2.

(**2**) OJ Rhif L 327, 22.12.2000, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2014/101/EU (OJ Rhif L 311, 31.10.2014, t. 32).

**Dosbarthu ymhellach gyflenwadau a geir oddi wrth ymgymerwyr dŵr neu drwyddedeion cyflenwi dŵr**

**8.** Pan fo dŵr yn cael ei gyflenwi gan ymgymerwr dŵr neu drwyddedai cyflenwi dŵr ac yna'n cael ei ddosbarthu ymhellach gan berson ac eithrio ymgymerwr dŵr neu drwyddedai cyflenwi dŵr, rhaid i'r awdurdod lleol gyflawni unrhyw waith monitro y mae'r asesiad risg yn dangos ei fod yn angenrheidiol.

**Cyflenwadau mawr a chyflenwadau fel rhan o weithgarwch masnachol neu gyhoeddus**

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gyflenwad dŵr preifat, ac eithrio fel a bennir yn rheoliad 8—

(a) sy'n cyflenwi cyfaint dŵr dyddiol cyfartalog o $10m^3$ neu ragor; neu

(b) sy'n cyflenwi dŵr fel rhan o weithgarwch masnachol neu gyhoeddus.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol fonitro cyflenwad dŵr preifat sy'n dod o fewn y rheoliad hwn yn unol ag Atodlen 2 a chyflawni unrhyw waith monitro ychwanegol y mae'r asesiad risg yn dangos ei fod yn angenrheidiol.

**Cyflenwadau i anheddau sengl**

**10.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gyflenwad dŵr preifat i annedd sengl nas defnyddir fel rhan o weithgarwch masnachol neu gyhoeddus (os felly mae rheoliad 9 yn gymwys) neu fel rhan o denantiaeth ddomestig (os felly mae rheoliad 11 yn gymwys).

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) caiff yr awdurdod lleol fonitro'r cyflenwad yn unol â'r gofynion yn rheoliad 11(1); a

(b) rhaid i'r awdurdod lleol wneud hynny os gofynnir iddo wneud hynny gan berchennog neu feddiannydd yr annedd honno.

**Cyflenwadau preifat eraill gan gynnwys cyflenwadau fel rhan o denantiaeth ddomestig**

**11.**—(1) Yn achos cyflenwad dŵr preifat nad yw rheoliadau 8, 9 neu 10 yn ei gwmpasu, rhaid i'r awdurdod lleol fonitro ar gyfer—

(a) dargludedd;

(b) enterococi;

(c) *Escherichia coli (E. coli)*;

(d) crynodiad ïonau hydrogen;

(e) cymylogrwydd;

(f) unrhyw baramedr yn Rhan 1 neu 2 o Atodlen 1 y nodir yn yr asesiad risg bod risg y gallai fethu â chydymffurfio â'r crynodiadau neu'r gwerthoedd yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno; ac

(g) unrhyw beth arall a nodir yn yr asesiad risg y gallai beri perygl posibl i iechyd dynol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol gyflawni'r gwaith monitro sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn bob 5 mlynedd o leiaf, ac yn amlach os yw'r asesiad risg yn dangos bod hynny'n angenrheidiol.

**Monitro sylweddau ymbelydrol: cyffredinol**

**12.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol fonitro pob cyflenwad dŵr preifat yn ei ardal (ac eithrio cyflenwad y mae rheoliad 13 yn gymwys iddo) ar gyfer y paramedrau sydd wedi eu cynnwys yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol yn unol â'r rheoliad hwn ac Atodlen 3.

(2) Yn y rheoliad hwn ac Atodlen 3, ystyr "y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol" yw Tabl D yn Rhan 3 o Atodlen 1.

(3) Pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni nad yw paramedr yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol yn debygol o fod yn bresennol mewn cyflenwad dŵr preifat yn ei ardal mewn crynodiadau a allai fod yn uwch na'r crynodiad neu'r gwerth rhagnodedig ar gyfer y paramedr perthnasol yn y tabl hwnnw, caiff yr awdurdod lleol, am ba gyfnod bynnag ag y gwêl yn briodol, benderfynu eithrio'r paramedr dan sylw o'r ddyletswydd fonitro ym mharagraff (1).

(4) Rhaid i benderfyniad o dan baragraff (3) gael ei wneud—

(a) ar sail arolygon cynrychioliadol, data monitro neu wybodaeth ddibynadwy arall (gan gynnwys unrhyw asesiad risg a gyflawnir yn unol â rheoliad 6); a

(b) gan ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu i Weinidogion Cymru sail ei benderfyniad o dan baragraff (3) a'r ddogfennaeth angenrheidiol sy'n ategu'r penderfyniad (gan gynnwys canfyddiadau unrhyw arolygon, gwaith monitro neu asesiadau a gyflawnir yn unol â pharagraff (4)(a)).

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyfleu i'r Comisiwn Ewropeaidd sail y penderfyniad o dan baragraff (3) ynghyd â'r ddogfennaeth a ddarperir o dan baragraff (5) sy'n ategu'r penderfyniad.

(7) Pan—

(a) fo penderfyniad wedi ei wneud yn flaenorol o dan baragraff (3), a

(b) na fo'r awdurdod lleol yn fodlon mwyach bod sail y penderfyniad yn bodoli,

ni fydd yr eithriad rhag monitro o dan baragraff (3) yn gymwys mwyach a rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig yn unol â hynny.

(8) Yn achos radioniwclidau sy'n digwydd yn naturiol, pan fo canlyniadau blaenorol (gan gynnwys arolygon cynrychioliadol, data monitro neu wybodaeth ddibynadwy arall) yn dangos bod y crynodiad o radioniwclidau mewn cyflenwad yn ardal awdurdod lleol yn sefydlog, mae amlder gofynnol gwaith samplu a dadansoddi i'w benderfynu gan yr awdurdod lleol, a'i gadarnhau drwy hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru, gan ystyried y risg i iechyd dynol.

**Monitro sylweddau ymbelydrol: cyflenwadau i anheddau sengl penodedig**

**13.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gyflenwad dŵr preifat i annedd sengl nas darperir fel rhan o weithgarwch masnachol neu gyhoeddus neu fel rhan o denantiaeth ddomestig.

(2) Caiff awdurdod lleol fonitro cyflenwad sy'n dod o fewn paragraff (1) ar gyfer y paramedrau sydd wedi eu cynnwys yn Nhabl D yn Rhan 3 o Atodlen 1 yn unol ag Atodlen 3 a Rhan 3 o Atodlen 4, a rhaid iddo wneud hynny os gofynnir iddo wneud hynny gan y perchennog neu'r meddiannydd.

**Samplu a dadansoddi**

**14.**—(1) Pan fo awdurdod lleol yn monitro cyflenwad dŵr preifat, rhaid iddo gymryd sampl—

(a) os yw'r dŵr wedi ei gyflenwi at ddibenion domestig, o dap a ddefnyddir fel arfer i gyflenwi dŵr i'w yfed gan bobl, ac sydd, os oes mwy nag un tap, yn gynrychioliadol o'r dŵr a gyflenwir i'r fangre;

(b) os defnyddir y dŵr mewn menter cynhyrchu bwyd, yn y man y'i defnyddir yn y fenter;

(c) os cyflenwir y dŵr o dancer, yn y man y daw allan o'r tancer;

(d) mewn man addas yn unrhyw achos arall.

(2) Rhaid cymryd hapsampl yn ystod y dydd o un litr o gyfaint o dap y defnyddiwr, heb ei lifolchi ymlaen llaw, at ddiben samplu ar gyfer y paramedrau copr, plwm a nicel.

(3) O ran samplu o dan y rheoliad hwn—

(a) ar gyfer paramedrau cemegol yn y rhwydwaith dosbarthu, rhaid ei gyflawni yn unol ag ISO 5667-5, ac eithrio pan fo'r sampl yn cael ei chymryd o dap defnyddiwr;

(b) ar gyfer paramedrau microbiolegol, rhaid ei gyflawni yn unol ag—

(i) EN ISO 19458 diben samplu A yn y rhwydwaith dosbarthu; a

(ii) EN ISO 19458 diben samplu B wrth dap y defnyddiwr.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y sampl yn cael ei dadansoddi yn unol ag Atodlen 4.

**Cyflenwadau newydd**

**15.**—(1) Pan fo awdurdod lleol yn dod yn ymwybodol o gyflenwad dŵr preifat sydd i'w ddefnyddio am y tro cyntaf (neu am y tro cyntaf ar ôl peidio â chael ei ddefnyddio am gyfnod o 12 mis neu ragor), neu sy'n cael ei ddefnyddio felly, rhaid cydymffurfio â gofynion rheoliadau 6 i 14 ac 16 i 19 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Ni chaniateir dechrau defnyddio neu ddefnyddio cyflenwad dŵr preifat hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni nad yw'r cyflenwad yn peri perygl posibl i iechyd dynol.

**Cofnodion**

**16.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol wneud a chadw cofnodion mewn cysylltiad â phob cyflenwad dŵr preifat yn ei ardal yn unol ag Atodlen 5.

(2) Erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn, rhaid i awdurdod lleol—

(a) anfon copi o'r cofnodion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) at y Prif Arolygydd Dŵr Yfed; a

(b) anfon copi o'r cofnodion hynny at Weinidogion Cymru os gofynnir amdanynt.

## RHAN 3

## Gweithredu yn dilyn methiant

**Darparu gwybodaeth**

**17.** Os yw awdurdod lleol o'r farn bod cyflenwad dŵr preifat yn ei ardal yn peri perygl posibl i iechyd dynol, rhaid iddo gymryd camau priodol yn brydlon i sicrhau bod y bobl sy'n debygol o yfed dŵr ohono—

(a) yn cael gwybod bod y cyflenwad yn peri perygl posibl i iechyd dynol;

(b) pan fo modd, yn cael gwybod am natur a graddau'r perygl posibl; ac

(c) yn cael cyngor i'w caniatáu i leihau unrhyw berygl posibl o'r fath.

**Ymchwilio**

**18.**—(1) Pan fo awdurdod lleol yn amau bod cyflenwad dŵr preifat yn methu â chydymffurfio ag—

(a) gofynion rheoliad 4, neu

(b) y crynodiadau neu'r gwerthoedd yn Rhan 2 neu Ran 3 o Atodlen 1 ar gyfer paramedr dangosydd,

rhaid iddo gynnal ymchwiliad i gadarnhau'r hyn a achosodd y methiant hwnnw.

(2) Unwaith y bydd awdurdod lleol wedi cynnal ymchwiliad ac wedi cadarnhau'r hyn a achosodd y methiant, rhaid iddo weithredu yn unol â pharagraffau (3) i (5).

(3) Os achoswyd y methiant o ganlyniad i'r system ddosbarthu o fewn mangre ddomestig (pa un a yw'r dŵr ar gael i'r cyhoedd yn y fangre honno ai peidio) rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio yn brydlon a chynnig cyngor iddynt ar y mesurau sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd dynol.

(4) Yn ogystal â'r ddyletswydd ym mharagraff (3) (pan fo'n gymwys), rhaid i'r awdurdod lleol weithredu yn unol â pharagraff (5) os achoswyd y methiant o ganlyniad i—

(a) y system ddosbarthu mewn mangre ddomestig pan fo'r dŵr ar gael i'r cyhoedd; neu

(b) system ddosbarthu nad yw mewn mangre ddomestig.

(5) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) os yw'r dŵr yn peri perygl posibl i iechyd dynol a bod yr amodau yn rheoliad 20 wedi eu bodloni, gyflwyno hysbysiad o dan y rheoliad hwnnw; neu

(b) o fewn 28 o ddiwrnodau o gadarnhau'r hyn a achosodd y methiant, ac os nad yw camau unioni priodol wedi eu cymryd, gyflwyno hysbysiad yn unol ag adran 80 o'r Ddeddf (pwerau unioni awdurdodau lleol mewn perthynas â chyflenwadau preifat) oni bai bod yr awdurdod lleol yn rhoi awdurdodiad yn unol â rheoliad 19(2).

(6) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys a bod rhwymedigaethau monitro awdurdod lleol mewn cysylltiad â'r cyflenwad wedi eu lleihau (neu eu hamrywio fel arall) yn flaenorol o dan Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, rhaid i'r fath amrywiad ddod i ben ar unwaith, a rhaid adfer yr amlderau safonol a amlinellir yn Nhablau 2 a 3 yn Atodlen 2.

**Awdurdodi safonau gwahanol**

**19.**—(1) Caiff unrhyw berson perthnasol wneud cais i awdurdod lleol am awdurdodiad o dan y rheoliad hwn.

(2) Caiff awdurdod lleol roi awdurdodiad ar gyfer safonau gwahanol o dan y rheoliad hwn—

(a) os yr unig beth sy'n achosi i'r dŵr fod yn afiachus yw na chydymffurfir â pharamedr yn Nhabl B o Ran 1 o Atodlen 1 (paramedrau cemegol);

(b) os yw'r awdurdod lleol wedi ymgynghori â'r holl ddefnyddwyr dŵr y bydd yr awdurdodiad yn effeithio arnynt a chydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac wedi ystyried eu safbwyntiau;

(c) os nad yw rhoi'r awdurdodiad yn achosi perygl posibl i iechyd dynol; a

(d) oni ellir cynnal y cyflenwad dŵr preifat drwy unrhyw ddulliau rhesymol eraill.

(3) Rhaid i awdurdodiad ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd gymryd camau dros gyfnod o amser i sicrhau y cydymffurfir â'r paramedrau angenrheidiol, a rhaid i'r awdurdodiad bennu—

(a) y person y rhoddir yr awdurdodiad iddo;

(b) y cyflenwad dŵr preifat dan sylw;

(c) y sail ar gyfer rhoi'r awdurdodiad;

(d) y paramedrau dan sylw, y canlyniadau monitro perthnasol blaenorol, a'r gwerthoedd uchaf a ganiateir o dan yr awdurdodiad;

(e) yr ardal ddaearyddol, amcangyfrif o faint o ddŵr a gyflenwir bob diwrnod, nifer y personau y cyflenwir dŵr iddynt, a pha un a effeithir ai peidio ar unrhyw fenter cynhyrchu bwyd;

(f) cynllun monitro priodol, gan fonitro'n amlach pan fo angen;

(g) crynodeb o'r cynllun i weithredu'r mesurau unioni angenrheidiol, gan gynnwys amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith, ac amcangyfrif o'r gost, a darpariaethau ar gyfer adolygu cynnydd; a

(h) hyd yr awdurdodiad.

(4) Os yw awdurdod lleol yn rhoi awdurdodiad, ac os yw'r person y'i rhoddir iddo yn gweithredu yn unol â'r amserlen a bennir yn yr awdurdodiad, ni chaiff yr awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad o dan adran 80 o'r Ddeddf ynghylch y materion a bennir yn yr awdurdodiad heb yn gyntaf ddiwygio neu ddirymu'r awdurdodiad.

(5) Rhaid i hyd yr awdurdodiad fod mor fyr â phosibl, a pha un bynnag ni chaiff fod yn hwy na 3 blynedd.

(6) Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y bobl a gyflenwir yn cael gwybod yn brydlon am yr awdurdodiad a'i amodau a sicrhau, pan fo'n angenrheidiol, y rhoddir cyngor i grwpiau penodol y gallai'r awdurdodiad beri risg arbennig iddynt.

(7) Os yw'r cyflenwad dŵr preifat yn fwy na 1,000 $m^3$ y diwrnod ar gyfartaledd neu os yw'n gwasanaethu mwy na 5,000 o bobl rhaid i'r awdurdod lleol anfon copi o'r awdurdodiad at y Prif Arolygydd Dŵr Yfed a Gweinidogion Cymru o fewn 1 mis.

(8) Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu cynnydd y camau unioni yn barhaus.

(9) Os oes angen, gyda chydsyniad ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru, caiff yr awdurdod lleol roi ail awdurdodiad am hyd at 3 blynedd ychwanegol, ond os yw'n gwneud hynny rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, anfon copi o'r awdurdodiad ynghyd â sail ei benderfyniad at y Prif Arolygydd Dŵr Yfed a Gweinidogion Cymru.

(10) Caiff yr awdurdod lleol ddirymu neu ddiwygio'r awdurdodiad ar unrhyw adeg, ac yn benodol, caiff ei ddiddymu neu ei ddiwygio os na chedwir at yr amserlen ar gyfer y gwaith unioni.

# RHAN 4

## Gweithdrefn hysbysu

**Hysbysiadau**

**20.**—(1) Os yw cyflenwad dŵr preifat yn peri perygl posibl i iechyd dynol, rhaid i awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad o dan y rheoliad hwn i'r person perthnasol yn hytrach na chyflwyno hysbysiad o dan adran 80 o'r Ddeddf.

(2) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) nodi'r cyflenwad dŵr preifat y mae'n ymwneud ag ef;

(b) pennu'r sail dros gyflwyno'r hysbysiad;

(c) gwahardd defnyddio'r cyflenwad hwnnw neu gyfyngu ar y defnydd ohono;

(d) pennu pa gamau eraill sy'n angenrheidiol er mwyn—

(i) diogelu iechyd dynol;

(ii) adfer iachusrwydd y cyflenwad dŵr preifat;

(iii) cynnal iachusrwydd parhaus y cyflenwad dŵr preifat ar ôl ei adfer; ac

(e) pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cymryd y camau sy'n ofynnol.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu defnyddwyr y cyflenwad dŵr preifat y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn brydlon, a darparu unrhyw gyngor sydd ei angen.

(4) Caiff yr hysbysiad fod yn ddarostyngedig i amodau, a chaniateir ei ddiwygio drwy hysbysiad pellach ar unrhyw adeg.

(5) Rhaid i'r awdurdod lleol ddirymu'r hysbysiad cyn gynted ag y bydd yn dod yn ymwybodol nad oes perygl posibl i iechyd dynol mwyach.

(6) Mae'n drosedd i berson perthnasol y cyflwynir hysbysiad iddo o dan y rheoliad hwn fethu â chydymffurfio â'r hysbysiad hwnnw.

(7) Pan fo person perthnasol ("P") yn methu â chymryd y camau sy'n ofynnol erbyn y dyddiad a bennir mewn hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (1), caiff yr awdurdod lleol a gyflwynodd yr hysbysiad gymryd y fath gamau ei hun.

(8) Pan fo unrhyw gamau yn cael eu cymryd gan awdurdod lleol o dan baragraff (7) mewn perthynas ag unrhyw fangre—

(a) caiff yr awdurdod lleol adennill oddi wrth P unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol ganddo wrth gymryd y camau hynny; a

(b) pan fo person, ac eithrio'r awdurdod lleol, yn atebol i wneud taliadau i P, bernir bod symiau a delir yn rhinwedd is-baragraff (a) yn dreuliau yr eir iddynt wrth gymryd y camau gan P.

**Apelau**

**21.**—(1) Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan hysbysiad a gyflwynir o dan reoliad 20 apelio i lys ynadon o fewn 28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad.

(2) Mae'r weithdrefn apelio a ddilynir mewn llys ynadon o dan baragraff (1) ar ffurf achwyniad, ac mae Deddf Llysoedd Ynadon 1980(**1**) yn gymwys i'r achosion.

(3) Bydd hysbysiad yn parhau mewn grym oni chaiff ei atal gan y llys.

(4) Mewn apêl, caiff y llys naill ai ddileu'r hysbysiad neu ei gadarnhau, gydag addasiadau neu heb addasiadau.

(**1**) 1980 p. 43.

**Cosbau**

**22.**—(1) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan reoliad 20 yn atebol—

(a) o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu gyfnod o garchar na fydd yn hwy na 3 mis, neu'r ddau; neu

(b) o'i euogfarnu ar dditiad, i ddirwy neu gyfnod o garchar na fydd yn hwy na 2 flynedd, neu'r ddau.

(2) Pan fo corff corfforaethol yn euog o drosedd o dan y Rheoliadau hyn, ac os profir bod y drosedd wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson arall tebyg yn y corff corfforaethol, neu

(b) unrhyw berson a oedd cymryd arno ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath,

mae'r person hwnnw yn euog o'r drosedd yn ogystal â'r corff corfforaethol.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "cyfarwyddwr" mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei fusnes yn cael ei reoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

## RHAN 5

## Amrywiol

**Ffioedd**

**23.** Mae Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ffioedd.

**Dirymiadau**

**24.**—(1) Mae'r offerynnau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau 2010;

(b) Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) 2010(**1**);

(c) Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010(**2**); a

(d) Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) 2016(**1**).

---

(**1**) O.S. 2010/147 (Cy. 22).
(**2**) O.S. 2010/1384 (Cy. 123).

(2) Mae paragraff 142 o Atodlen 2 i Orchymyn yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Triniaethau (Dileu) a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2013(**2**) wedi ei ddirymu.

**Diwygiad canlyniadol**

**25.** Yn rheoliad 21(7)(b) o Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010(**3**), yn lle "regulation 15 or 16 of the Private Water Supplies (Wales) Regulations 2010" rhodder "regulation 18 of the Private Water Supplies (Wales) Regulations 2017".

**Darpariaethau trosiannol**

**26.**—(1) Pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) mae awdurdodiad a roddir o dan reoliad 17(2) o Reoliadau 2010 sydd mewn grym yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym i'w gymryd i fod yn awdurdodiad a roddir o dan reoliad 19(2) o'r Rheoliadau hyn;

(b) mae ail awdurdodiad a roddir o dan reoliad 17(9) o Reoliadau 2010 sydd mewn grym yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym i'w gymryd i fod yn ail awdurdodiad a roddir o dan reoliad 19(9) o'r Rheoliadau hyn;

(c) mae hysbysiad a gyflwynir o dan reoliad 18 o Reoliadau 2010 sydd mewn grym yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ("hysbysiad presennol") i'w gymryd i fod yn hysbysiad a gyflwynir o dan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Caniateir gwneud apêl o dan reoliad 21(1) o'r Rheoliadau hyn yn erbyn hysbysiad presennol os nad yw'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud apêl o dan reoliad 19(1) o Reoliadau 2010 wedi dod i ben ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(3) O ran awdurdod lleol sydd wedi—

(a) lleihau amlder samplu ar gyfer paramedr o dan baragraff 2(2) yn Rhan 1 o Atodlen 2 (monitro) i Reoliadau 2010, neu

(b) eithrio paramedr o waith monitro archwilio o dan baragraff 3(3) yn Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau 2010,

(**1**) O.S. 2016/411 (Cy. 129).
(**2**) O.S. 2013/235.
(**3**) O.S. 2010/994 (Cy. 99); fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/14 (Cy. 7), O.S. 2013/235, O.S. 2013/1387, O.S. 2016/410 (Cy. 128) ac O.S. 2017/506.

rhaid iddo, pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym, ddod ag unrhyw leihad neu eithriad o'r fath i ben, ac yn lle hynny rhaid iddo ddechrau monitro yn unol â'r ddarpariaeth a wneir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(4) Caiff awdurdod lleol ddibynnu ar unrhyw ddata a gesglir yn ystod y cyfnod o 36 mis sy'n dod i ben â'r diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym i gyfiawnhau unrhyw amrywiad o ran monitro o dan Ran 4 o Atodlen 2.

(5) Mae Tabl 2 (nodweddion perfformiad rhagnodedig ar gyfer dulliau dadansoddi) yn Atodlen 4 yn parhau mewn grym hyd 23:59 ar 31 Rhagfyr 2019, a chaiff ei ddirymu at bob diben ar ôl hynny.

*Lesley Griffiths*

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
25 Hydref 2017

# ATODLEN 1 Rheoliadau 2, 11, 12, 13, 18 a 19

## Crynodiadau neu Werthoedd

## RHAN 1

### Iachusrwydd

**TABL A:**

**PARAMEDRAU MICROBIOLEGOL**

| **Paramedrau crynodiadau neu werthoedd rhagnodedig** | **Crynodiad neu werth uchaf** | **Unedau Mesur** |
|---|---|---|
| *Escherichia coli (E. coli)* | 0 | Nifer/100ml |
| Enterococci | 0 | Nifer/100ml |
| **Yn achos dŵr mewn poteli neu gynwysyddion:** | | |
| *Escherichia coli (E.coli)* | 0 | Nifer/250ml |
| Enterococci | | Nifer/250ml |
| *Pseudomonas aeruginosa* | 0 | Nifer/250ml |
| Cyfrifiad cytrefi 22ºC | 100 | Nifer/ml |

**TABL B:**

**PARAMEDRAU CEMEGOL**

| **Paramedrau crynodiadau neu werthoedd rhagnodedig** | **Crynodiad neu werth uchaf** | **Unedau Mesur** |
|---|---|---|
| Acrylamid [(1)] | 0.10 | µg/l |
| Antimoni | 5.0 | µg/l |
| Arsenig | 10 | µg/l |
| Bensen | 1.0 | µg/l |
| Benso(a)pyren | 0.010 | µg/l |
| Boron | 1.0 | mg/l |
| Bromad | 10 | µg/l |
| Cadmiwm | 5.0 | µg/l |
| Cromiwm | 50 | µg/l |
| Copr | 2.0 | mg/l |
| Cyanid | 50 | µg/l |
| 1.2 dicloroethan | 3.0 | µg/l |
| Epichlorohydrin[(1)] | 0.10 | µg/l |
| Fflworid | 1.5 | mg/l |
| Plwm | 10 | µg/l |
| | | µg/l |
| Mercwri | 1.0 | µg/l |
| Nicel | 20 | µg/l |
| Nitrad [(2)] | 50 | mg/l |
| Nitraid [(2)] | 0.5 (neu 0.1 yn achos | mg/l |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gweithfeydd trin) | |
| Plaleiddiaid [3]— | | | |
| | Aldrin | 0.030 | µg/1 |
| | Dieldrin | 0.030 | µg/1 |
| | Heptaclor | 0.030 | µg/1 |
| | Heptaclor epocsid | 0.030 | µg/1 |
| | Plaleiddiaid eraill | 0.10 | µg/1 |
| | Cyfanswm plaleiddiaid [4] | 0.50 | µg/1 |
| Hydrocarbonau polysyclig aromatig [5] | | 0.10 | µg/1 |
| Seleniwm | | 10 | µg/1 |
| Tetracloroethen a Thricloroethen[6] | | 10 | µg/1 |
| Trihalomethanau: Cyfanswm[7] | | 100 | µg/1 |
| Finyl clorid[1] | | 0.50 | µg/1 |

[1] Mae'r gwerth paramedrig yn cyfeirio at y crynodiad monomerau gweddillol yn y dŵr fel y'i cyfrifir yn ôl manylebau uchafswm y gollyngiad o'r polymer cyfatebol mewn cyffyrddiad â'r dŵr. Rheolir hyn drwy fanylebau cynnyrch.

[2] *Gweler* hefyd y fformiwla nitrad-nitraid yn rheoliad 4(1)(c).

[3] At y dibenion hyn, ystyr "plaleiddiaid" yw:

- pryfleiddiaid organig
- chwynleiddiaid organig
- ffyngleiddiaid organig
- nematoleiddiaid organig
- gwiddonleiddiaid organig
- algaleiddiaid organig
- llygodleiddiaid organig
- llysnafeddleiddiaid organig
- cynhyrchion cysylltiedig (ymhlith eraill, rheoleiddwyr tyfiant) a'u metabolion a'u cynhyrchion diraddio ac adweithio perthnasol. Dim ond y plaleiddiaid hynny sy'n debygol o fod yn bresennol mewn cyflenwad penodol sydd angen eu monitro.

[4] Ystyr "cyfanswm plaleiddiaid" yw swm y crynodiadau o'r plaleiddiaid unigol a ganfyddir ac a feintiolir yn y broses fonitro.

[5] Y cyfansoddion penodedig yw:

- benso(b)fflworanthen
- benso(k)fflworanthen
- benso(ghi)perylen
- indeno(1,2,3-cd)pyren.

Mae'r gwerth paramedrig yn gymwys i swm y crynodiadau o'r cyfansoddion unigol a ganfyddir ac a feintiolir yn y broses fonitro.

[6] Mae'r gwerth paramedrig yn gymwys i swm y crynodiadau o'r cyfansoddion unigol a ganfyddir ac a feintiolir yn y broses fonitro.

[7] Y cyfansoddion penodedig yw:

- clorofform
- bromofform
- dibromocloromethan
- bromodicloromethan.

Mae'r gwerth paramedrig yn gymwys i swm y crynodiadau o'r cyfansoddion unigol a ganfyddir ac a feintiolir yn y broses fonitro.

**Gofynion cenedlaethol - Crynodiadau neu werthoedd rhagnodedig**

| Paramedrau | Crynodiad neu werth uchaf | Unedau Mesur |
|---|---|---|
| Alwminiwm | 200 | µg/l |
| Lliw | 20 | mg/l Pt/Co |
| Haearn | 200 | µg/l |
| Manganîs | 50 | µg/l |
| Arogl | Derbyniol i ddefnyddwyr a dim newid annormal | |
| Sodiwm | 200 | mg/l |
| Blas | Derbyniol i ddefnyddwyr a dim newid annormal | |
| Tetracloromethan | 3 | µg/l |
| Cymylogrwydd | 4 | NTU |

# RHAN 2

## Paramedrau Dangosyddion

**TABL C:**

**Crynodiadau, gwerthoedd neu gyflyrau rhagnodedig**

| Paramedrau | Crynodiad neu werth uchaf | Unedau Mesur |
|---|---|---|
| Amoniwm | 0.50 | mg/l |
| Clorid[(1)] | 250 | mg/l |
| *Clostridium perfringens* (gan gynnwys sborau) | 0 | Nifer/100ml |
| Bacteria colifform | 0 | Nifer/100ml (Nifer/250ml yn achos dŵr a roddir mewn poteli neu gynwysyddion) |
| Cyfrifau cytrefi | Dim newid annormal | Nifer/ml ar 22°C |
| Dargludedd[(1)] | 2500 | µS/cm ar 20ºC |
| Ïonau hydrogen | 9.5 (gwerth uchaf) | Gwerth pH |
| | 6.5 (gwerth isaf) (yn achos dŵr llonydd a roddir mewn poteli neu gynwysyddion y gwerth isaf yw 4.5) | Gwerth pH |
| Sylffad[(1)] | 250 | mg/l |
| Cyfanswm carbon organig (CCO) | Dim newid annormal | mgC/l |
| Cymylogrwydd[(2)] | 1 | NTU |

[(1)] Ni ddylai'r dŵr fod yn ymosodol.

[(2)] Yn achos dŵr wyneb neu ddŵr daear y dylanwadwyd arno gan ddŵr wyneb yn unig.

# RHAN 3

## Paramedrau sylweddau ymbelydrol

**TABL D:**

**Gwerthoedd rhagnodedig ar gyfer radon, tritiwm a dos dangosol dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl**

| Paramedrau | Crynodiad neu werth uchaf | Unedau Mesur |
|---|---|---|
| Dos dangosol (ar gyfer ymbelydredd) | 0.10 | mSv |
| Radon[(1)] | 100 | Bq/l |
| Tritiwm (ar gyfer ymbelydredd)[(2)] | 100 | Bq/l |

[(1)] Bernir bod camau gorfodi gan yr awdurdod lleol wedi eu cyfiawnhau ar sail diogelwch radiolegol heb unrhyw ystyriaeth bellach pan fo'r crynodiadau radon yn uwch na 1,000 Bq/1.

[(2)] Os yw'r crynodiad o dritiwm yn uwch na'i werth paramedrig, rhaid cynnal ymchwiliad (a gaiff gynnwys dadansoddiad) i bresenoldeb radioniwclidau artiffisial.

# ATODLEN 2

Rheoliadau 2 , 9, 18 a 26

## Monitro

## RHAN 1

### Monitro ar gyfer paramedrau Grŵp A

**Samplu**

**1.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol fonitro ar gyfer paramedrau Grŵp A yn unol â'r Rhan hon.

(2) Ystyr "monitro ar gyfer paramedrau Grŵp A" yw samplu ar gyfer pob paramedr a restrir yng ngholofn 1 o Dabl 1 o dan yr amgylchiadau a restrir yn y cofnod cyfatebol ar gyfer y paramedr hwnnw yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw er mwyn—

(a) canfod pa un a yw'r dŵr yn cydymffurfio â'r crynodiadau neu'r gwerthoedd yn Atodlen 1 ai peidio;

(b) darparu gwybodaeth am ansawdd organoleptig a microbiolegol y dŵr; ac

(c) cadarnhau pa mor effeithiol fu'r driniaeth a roddwyd i'r dŵr, gan gynnwys y diheintio.

**Tabl 1**

**Paramedrau Grŵp A**

| **Paramedrau** | **Amgylchiadau** |
|---|---|
| Alwminiwm | Os y'i defnyddir fel cemegyn trin dŵr |
| Amoniwm | Os defnyddir cloramineiddio |
| *Clostridium perfringens* (gan gynnwys sborau) | Pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb |
| Bacteria colifform | Ym mhob cyflenwad |
| Cyfrifau cytrefi | Ym mhob cyflenwad |
| Lliw | Ym mhob cyflenwad |
| Dargludedd | Ym mhob cyflenwad |
| *Escherichia coli (E. coli)* | Ym mhob cyflenwad |
| Crynodiad ïonau hydrogen | Ym mhob cyflenwad |
| Haearn | Os y'i defnyddir fel cemegyn trin dŵr |
| Manganîs | Pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb |
| Nitrad | Os defnyddir cloramineiddio |
| Nitraid | Os defnyddir cloramineiddio |
| Arogl | Ym mhob cyflenwad |
| *Pseudomonas aeruginosa* | Yn achos dŵr mewn poteli neu gynwysyddion yn unig |
| Blas | Ym mhob cyflenwad |
| Cymylogrwydd | Ym mhob cyflenwad |

**Amlder samplu**

**2.** Rhaid cyflawni gwaith samplu ar gyfer paramedrau Grŵp A mor aml ag a bennir yn Nhabl 2.

**Tabl 2**

**Amlder samplu ar gyfer paramedrau Grŵp A**

| *Cyfaint m3/diwrnod* | *Amlder samplu fesul blwyddyn* |
|---|---|
| ≤ 10 | 1 |
| □ 10 ≤ 100 | 2 |
| □ 100 ≤ 1,000 | 4 |
| □ 1,000 ≤ 2,000 | 10 |
| □ 2,000 ≤ 3,000 | 13 |
| □ 3,000 ≤ 4,000 | 16 |
| □ 4,000 ≤ 5,000 | 19 |
| □ 5,000 ≤ 6,000 | 22 |
| □ 6,000 ≤ 7,000 | 25 |
| □ 7,000 ≤ 8,000 | 28 |
| □ 8,000 ≤ 9,000 | 31 |
| □ 9,000 ≤ 10,000 | 34 |
| □ 10,000 | 4 + 3 am bob 1,000 $m^3$/diwrnod o gyfanswm y cyfaint (gan dalgrynnu i fyny i'r lluosrif agosaf o 1,000 $m^3$/diwrnod) |

# RHAN 2

## Monitro ar gyfer paramedrau Grŵp B

**Samplu**

**3.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol fonitro ar gyfer paramedrau Grŵp B yn unol â'r Rhan hon.

(2) Ystyr "monitro ar gyfer paramedrau Grŵp B" yw samplu ar gyfer pob paramedr a restrir yn Rhan 1 neu 2 o Atodlen 1 (ac eithrio paramedrau Grŵp A sydd eisoes yn cael eu samplu o dan Ran 1 o'r Atodlen hon)—

(a) er mwyn darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ganfod pa un a yw'r cyflenwad dŵr preifat yn bodloni pob crynodiad, gwerth neu gyflwr a bennir yn y naill neu'r llall o'r Rhannau hynny o'r Atodlen honno ai peidio; a

(b) os defnyddir diheintio, rhaid gwirio bod cyn lleied o sgil-gynhyrchion diheintio â phosibl heb beryglu effeithiolrwydd y diheintio.

**Amlder samplu**

**4.** Rhaid cyflawni gwaith samplu ar gyfer paramedrau Grŵp B mor aml ag a bennir yn Nhabl 3.

**Tabl 3**

**Amlder samplu ar gyfer paramedrau Grŵp B**

| ***Cyfaint m3/diwrnod*** | ***Amlder samplu fesul blwyddyn*** |
|---|---|
| ≤ 10 | 1 |
| □ 10 ≤ 3,300 | 2 |
| □ 3,300 ≤ 6,600 | 3 |
| □ 6,600 ≤ 100,000 | 4 |
| □ 10,000 ≤ 100,000 | 3 + 1 am bob 10,000 $m^3$/diwrnod o gyfanswm y cyfaint (gan dalgrynnu i fyny i'r lluosrif agosaf o 10,000 $m^3$/diwrnod) |
| □ 100,000 | 10 + 1 am bob 25,000 $m^3$/diwrnod o gyfanswm y cyfaint (gan dalgrynnu i fyny i'r lluosrif agosaf o 25,000 $m^3$/diwrnod) |

# RHAN 3

## Amlderau lleiaf monitro ar gyfer paramedrau Grŵp A a monitro ar gyfer paramedrau Grŵp B ar gyfer dŵr a roddir mewn poteli neu gynwysyddion

| ***Cyfaint[a] y dŵr a gynhyrchir mewn poteli neu gynwysyddion bob dydd ($m^3$)*** | ***Monitro ar gyfer paramedrau Grŵp A: nifer y samplau fesul blwyddyn*** | ***Monitro ar gyfer paramedrau Grŵp B: nifer y samplau fesul blwyddyn*** |
|---|---|---|
| ≤ 10 | 1 | 1 |
| □ 10 ≤ 60 | 12 | 1 |
| □ 60 | 1 am bob 5 $m^3$/diwrnod o gyfanswm y cyfaint (gan dalgrynnu i fyny i'r lluosydd agosaf o 5 $m^3$/diwrnod) | 1 am bob 100 $m^3$/diwrnod o gyfanswm y cyfaint (gan dalgrynnu i fyny i'r lluosydd agosaf o 100 $m^3$/diwrnod) |

[a] Cyfrifir y cyfeintiau fel cyfartaleddau dros flwyddyn galendr.

# RHAN 4

## Amrywio gofynion monitro ar gyfer paramedrau Grŵp A a Grŵp B

**Amrywio amlder samplu**

**5.**—(1) Caiff awdurdod lleol leihau'r amlderau samplu sy'n ofynnol ar gyfer paramedr (ac eithrio ar gyfer *Escheria coli (E. coli)*) o dan Ran 1 neu 2 o'r Atodlen hon ar yr amod—

(a) bod y canlyniadau o samplau a gymerwyd mewn cysylltiad â'r paramedr hwnnw a gasglwyd ar adegau rheolaidd dros y 3 blynedd flaenorol oll yn is na 60% o'r gwerth paramedrig;

(b) bod canlyniadau asesiad risg yn cael eu hystyried, a bod yr asesiad risg hwnnw yn dangos na ellir yn rhesymol ragweld bod unrhyw ffactor yn debygol o achosi dirywiad yn ansawdd y dŵr sydd i'w yfed gan bobl;

(c) bod data a gesglir wrth gyflawni ei rwymedigaethau monitro o dan y Rhan hon yn cael eu hystyried; a

(d) bod o leiaf un sampl yn cael ei chymryd fesul blwyddyn.

(2) Caiff awdurdod lleol bennu amlder samplu uwch ar gyfer unrhyw baramedr os yw'n ystyried bod hynny'n briodol gan ystyried canfyddiadau unrhyw asesiad risg.

**Amrywio paramedrau**

**6.**—(1) Caiff awdurdod lleol beidio â monitro paramedr (ac eithrio *Escheria coli (E. coli)*) y mae fel arall yn ofynnol ei fonitro o dan Ran 1 neu 2 o'r Atodlen hon ar yr amod—

(a) bod y canlyniadau o samplau a gymerwyd mewn cysylltiad â'r paramedr hwnnw a gasglwyd ar adegau rheolaidd dros y 3 blynedd flaenorol oll yn is na 30% o'r gwerth paramedrig;

(b) bod canlyniadau asesiad risg yn cael eu hystyried, a bod yr asesiad risg hwnnw yn dangos na ellir yn rhesymol ragweld bod unrhyw ffactor yn debygol o achosi dirywiad yn ansawdd y dŵr sydd i'w yfed gan bobl; ac

(c) bod data a gesglir wrth gyflawni ei rwymedigaethau monitro o dan y Rhan hon yn cael eu hystyried.

(2) Caiff awdurdod lleol fonitro ar gyfer priodoleddau, elfennau, organebau neu sylweddau eraill nad ydynt wedi eu cynnwys fel paramedr os yw'n ystyried bod hynny'n briodol gan ystyried canfyddiadau unrhyw asesiad risg.

# ATODLEN 3 Rheoliadau 12 a 13

## Monitro sylweddau ymbelydrol

**Radon**

**1.**—(1) Mewn perthynas â'r paramedr radon yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol, rhaid i awdurdod lleol—

(a) sicrhau y cynhelir arolwg cynrychioliadol yn unol ag is-baragraff (2) i ganfod pa mor debygol ydyw y bydd cyflenwad dŵr preifat yn methu â chydymffurfio â'r crynodiad neu'r gwerth paramedrig perthnasol a bennir yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol; a

(b) cynnal gwaith monitro pan fo rheswm i gredu, ar sail canlyniadau'r arolygon cynrychioliadol neu wybodaeth ddibynadwy arall, gan gynnwys unrhyw asesiad risg a gyflawnir yn unol â rheoliad 6, y gall y gwerth paramedrig ar gyfer y paramedr radon fod yn uwch na'r hyn a nodir yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol.

(2) Rhaid llunio arolwg cynrychioliadol yn y fath fodd—

(a) er mwyn gallu canfod maint a natur y tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â radon mewn dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl sy'n dod o fathau gwahanol o ffynonellau dŵr daear a ffynhonnau mewn ardaloedd daearegol gwahanol; a

(b) y gellir nodi'r paramedrau sylfaenol, yn enwedig daeareg a hydroleg yr ardal, ymbelydredd y creigiau neu'r pridd, a'r math o ffynnon, a defnyddio'r wybodaeth honno i gyfeirio camau gweithredu pellach i ardaloedd sy'n debygol o ddod i gysylltiad â lefel uchel o radon.

**Tritiwm**

**2.**—(1) Mewn perthynas â'r paramedr tritiwm yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol, rhaid i awdurdod lleol—

(a) cyflawni gwaith monitro pan fo ffynhonnell anthropogenig o dritiwm neu radioniwclidau artiffisial eraill yn bresennol yn y dalgylch, ac ni ellir dangos ar sail rhaglenni gwyliadwriaeth neu ymchwiliadau eraill, gan gynnwys unrhyw asesiad risg a gyflawnir yn unol â rheoliad 6, fod lefel y tritiwm yn is na'r gwerth paramedrig a restrir yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol; a

(b) cynnal ymchwiliad mewn perthynas â phresenoldeb radioniwclidau artiffisial eraill os yw'r crynodiad o dritiwm yn uwch na'r gwerth paramedrig a restrir yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol.

(2) Pan fo monitro yn ofynnol o dan is-baragraff (1)—

(a) rhaid cynnal y gwaith monitro mor aml ag a nodir ar gyfer monitro'r paramedrau Grŵp B yn Nhabl 3 yn Rhan 2 o Atodlen 2; neu

(b) rhaid cynnal y gwaith monitro (yn achos cyflenwad dŵr preifat sy'n dod o fewn cwmpas rheoliad 11(1)) o leiaf bob 5 mlynedd neu'n amlach os yw'r asesiad risg y cyfeirir ato o dan is-baragraff (1)(a) yn dangos bod hynny'n angenrheidiol.

**Dos Dangosol**

**3.**—(1) Mewn perthynas â'r paramedr dos dangosol yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol, rhaid i awdurdod lleol gyflawni gwaith monitro pan fo ffynhonnell ymbelydredd artiffisial neu lefel uwch o ymbelydredd naturiol yn bresennol ac ni ellir dangos, ar sail rhaglenni gwyliadwriaeth neu ymchwiliadau eraill, gan gynnwys unrhyw asesiad risg a gyflawnir yn unol â rheoliad 6, fod lefel y dos dangosol yn is na'r gwerth paramedrig a restrir yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol.

(2) Pan fo monitro yn ofynnol gan is-baragraff (1) mewn perthynas â radioniwclidau artiffisial—

(a) rhaid cynnal y gwaith monitro mor aml ag a nodir ar gyfer monitro'r paramedrau Grŵp B yn Nhabl 3 yn Rhan 2 o Atodlen 2; neu

(b) rhaid cynnal y gwaith monitro (yn achos cyflenwad dŵr preifat sy'n dod o fewn cwmpas rheoliad 11(1)) o leiaf bob 5 mlynedd neu'n amlach os yw'r asesiad risg yn dangos bod hynny'n angenrheidiol.

(3) Pan fo monitro yn ofynnol gan is-baragraff (1) mewn perthynas â ffynhonnell lefel uwch o ymbelydredd naturiol—

(a) o ran yr awdurdod lleol—

(i) caiff benderfynu pa mor aml y dylid monitro yn ei ardal yn dibynnu ar y strategaeth sgrinio a fabwysiedir gan yr awdurdod; a

(ii) rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig am ei benderfyniad o dan is-baragraff (i); a

(b) caniateir i'r amlder monitro a benderfynir o dan baragraff (a)(i) amrywio o un mesuriad gwirio i'r amlderau a nodir ar gyfer monitro'r paramedrau Grŵp B yn Nhabl 3 yn Rhan 2 o Atodlen 2.

(4) Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu o dan is-baragraff (3) bod un mesuriad gwirio ar gyfer ymbelydredd naturiol yn briodol, rhaid i'r awdurdod lleol gynnal gwiriad pellach os oes unrhyw newid yn digwydd mewn perthynas â'r cyflenwad dŵr preifat sy'n debygol o ddylanwadu ar y crynodiadau o radioniwclidau yn y cyflenwad.

**Trin dŵr**

**4.** Pan fo cyflenwad dŵr preifat wedi ei drin i leihau lefel y radioniwclidau, rhaid i'r awdurdod lleol fonitro'r cyflenwad ar gyfer cyfanswm y dos dangosol, radon a thritiwm yn unol â darpariaethau'r Rhan hon ac mor aml ag a nodir ar gyfer monitro paramedrau Grŵp B yn Nhabl 3 yn Rhan 2 o Atodlen 2 i wirhau effeithiolrwydd parhaus y driniaeth honno.

**Gwerthoedd cyfartalog**

**5.** Pan fo gwerth sampl benodol a gymerir gan awdurdod lleol yn uwch na'r gwerth paramedrig yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol, rhaid i Weinidogion Cymru bennu, drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod lleol, raddau'r gwaith ailsamplu sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gwerthoedd a fesurir yn gynrychioliadol o grynodiad gweithgarwch cyfartalog ar gyfer blwyddyn lawn.

# ATODLEN 4 Rheoliadau 13 a 14

## Samplu a dadansoddi

## RHAN 1

## Cyffredinol

**Samplau: cyffredinol**

**1.**——(1) Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, fod y gofynion priodol wedi eu bodloni wrth—

(a) cymryd, trin, cludo a storio sampl y mae'n ofynnol ei chymryd yn unol â'r Atodlen hon;

(b) dadansoddi sampl o'r fath; neu

(c) achosi i unrhyw sampl o'r fath gael ei chymryd, ei thrin, ei chludo, ei storio neu ei dadansoddi.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "y gofynion priodol" yw unrhyw rai o'r canlynol sy'n gymwys—

(a) bod y sampl yn gynrychioliadol o ansawdd y dŵr ar yr adeg y cymerir y sampl;

(b) bod y person sy'n cymryd y sampl yn ddarostyngedig i system reoli ansawdd i safon briodol sy'n cael ei gwirio o bryd i'w gilydd gan gorff achrededig addas;

(c) nad yw'r sampl yn cael ei halogi wrth ei chymryd;

(d) bod y sampl yn cael ei chadw ar y fath dymheredd ac o dan y fath amodau sy'n sicrhau nad oes unrhyw newid perthnasol o ran y crynodiad neu'r gwerth ar gyfer y mesur neu'r arsylwi y mae'r sampl wedi ei bwriadu ar ei gyfer;

(e) bod y sampl yn cael ei dadansoddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei chymryd—

(i) gan berson sy'n gymwys i wneud hynny, neu o dan oruchwyliaeth person o'r fath; a

(ii) gan ddefnyddio unrhyw gyfarpar sy'n addas ar gyfer y diben;

(f) rhaid i'r broses o gasglu a chludo samplau, neu fesuriadau a gofnodir drwy fonitro parhaus, fod yn ddarostyngedig i system reoli ansawdd i safon briodol sy'n cael ei gwirio o bryd i'w gilydd gan gorff achrededig addas.

(3) Wrth ymgymryd â'r gweithgarwch a ddisgrifir yn—

(a) is-baragraff (1)(a), rhaid i'r awdurdod lleol ddangos cydymffurfedd ag unrhyw un neu ragor o EN ISO/IEC 17024, EN ISO/EIC 17025, neu safon gyfatebol arall sy'n cael ei derbyn yn rhyngwladol;

(b) is-baragraff (1)(b), rhaid i'r awdurdod lleol ddangos cydymffurfedd ag EN ISO/EIC 17025, neu safon gyfatebol arall sy'n cael ei derbyn yn rhyngwladol.

(4) Caniateir gohirio gweithredu'r gofyniad yn is-baragraff (3)(a) am gyfnod o ddim mwy na 24 mis gan ddechrau ar y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(5) Yn y paragraff hwn, ystyr "corff achrededig addas" yw unrhyw berson sydd wedi ei achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig(**1**).

**Dadansoddi samplau: paramedrau microbiolegol**

**2.** Ar gyfer pob paramedr a bennir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 yn Rhan 2 o'r Atodlen hon, mae'r dull dadansoddi wedi ei bennu yn ail golofn y tabl hwnnw.

---

(**1**) *Gweler* O.S. 2009/3155 ynglŷn â phenodi Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig yn gorff achredu cenedlaethol.

**Dadansoddi samplau: paramedrau cemegol a dangosyddion**

**3.**—(1) Ar 31 Rhagfyr 2019 neu cyn hynny, caiff yr awdurdod lleol gymhwyso'r dull o ddadansoddi ar gyfer paramedrau cemegol a dangosyddion yn naill ai is-baragraff (3) neu is-baragraff (4).

(2) Ar ôl 31 Rhagfyr 2019, rhaid i'r awdurdod lleol gymhwyso'r dull o ddadansoddi ar gyfer paramedrau cemegol a dangosyddion yn is-baragraff (4).

(3) Ar gyfer pob paramedr a bennir yng ngholofn gyntaf Tabl 2 yn Rhan 2 o'r Atodlen hon, mae'r dull yn un sy'n gallu—

(a) mesur crynodiadau a gwerthoedd gyda'r gwiredd a'r trachywiredd a bennir yn ail golofn a thrydedd golofn y tabl hwnnw, a

(b) canfod y paramedr ar y terfyn canfod a bennir ym mhedwaredd golofn y tabl hwnnw.

(4) Ar gyfer pob paramedr a bennir yng ngholofn gyntaf Tabl 3 yn Rhan 2 o'r Atodlen hon, mae'r dull yn un sy'n gallu mesur crynodiadau sy'n hafal â'r—

(a) gwerth paramedrig gyda therfyn meintioliad o 30% neu lai o'r gwerth paramedrig perthnasol (fel sydd wedi ei gynnwys yn Atodlen 1), a

(b) yr ansicrwydd mesuriadau yn ail golofn y tabl hwnnw.

(5) Rhaid i'r dull dadansoddi a ddefnyddir ar gyfer y paramedrau arogl a blas allu mesur gwerthoedd sy'n hafal â'r gwerth paramedrig gyda thrachywiredd o 1 rhif gwanediad ar 25°C.

(6) At y dibenion hyn—

(a) y "terfyn canfod" yw—

(i) tair gwaith y gwyriad safonol perthynol o fewn swp, o sampl naturiol sy'n cynnwys crynodiad isel o'r paramedr; neu

(ii) pum gwaith y gwyriad safonol perthynol o fewn swp, o sampl wag;

(b) "trachywiredd" (sef yr hapgyfeiliornad) yw dwywaith y gwyriad safonol (o fewn swp a rhwng sypiau) gwasgariad y canlyniadau o amgylch y cymedr. Trachywiredd derbyniol yw dwywaith y gwyriad safonol cymharol. Mae manylebau pellach wedi eu nodi yn ISO 17025;

(c) "gwiredd" (y cyfeiliornad systematig) yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth cymedrig y nifer fawr o fesuriadau mynych a'r gwir werth. Mae manylebau pellach wedi eu nodi yn ISO 17025;

(d) mae "ansicrwydd mesuriadau" yn baramedr annegyddol sy'n nodweddu gwasgariad y gwerthoedd nifer sy'n cael eu mesur, ar sail yr wybodaeth a ddefnyddir.

**Awdurdodi dulliau dadansoddi eraill**

**4.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi dull sy'n wahanol i'r rheini a nodir ym mharagraff 3(2) neu 3(3) os ydynt yn fodlon ei fod o leiaf yr un mor ddibynadwy.

(2) Caiff awdurdodiad fod am gyfnod cyfyngedig, a chaniateir ei ddirymu ar unrhyw adeg.

**Samplu a dadansoddi gan bersonau ac eithrio awdurdodau lleol**

**5.**—(1) Caiff awdurdod lleol ymrwymo i drefniant i unrhyw berson gymryd samplau a'u dadansoddi ar ran yr awdurdod lleol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol beidio ag ymrwymo i drefniant o dan is-baragraff (1) oni fydd—

(a) yn fodlon y cyflawnir y dasg yn brydlon gan berson sy'n gymwys i'w chyflawni, a

(b) wedi gwneud trefniadau i sicrhau y caiff yr awdurdod lleol ei hysbysu ar unwaith am unrhyw doriad o'r Rheoliadau hyn, ac am unrhyw ganlyniad arall o fewn 28 diwrnod.

# RHAN 2

## Dulliau dadansoddi

**Tabl 1**

**Dulliau dadansoddi rhagnodedig ar gyfer paramedrau microbiolegol**

| ***Paramedr*** | ***Dull*** |
|---|---|
| *Escherichia coli* (E. coli) | EN ISO 9308-1 neu EN ISO 9308-2 |
| Enterococi | EN ISO 7899-2 |
| Pseudomonas aeruginosa | EN-ISO 16266 |
| Cyfrifiad cytrefi 22ºC - cyfrif micro-organebau meithrinadwy | EN ISO 6222 |
| Cyfrifiad cytrefi 36ºC - cyfrif micro-organebau meithrinadwy | EN ISO 6222 |
| *Clostridium perfringens* (gan gynnwys sborau) | EN ISO 14189 |

**Tabl 2**

**Nodweddion perfformiad rhagnodedig dulliau dadansoddi ar gyfer paramedrau cemegol a dangosyddion: gwiredd, trachywiredd a therfyn canfod (ar 31 Rhagfyr 2019 neu cyn hynny)**

| ***Paramedr*** | ***Gwiredd fel % o'r crynodiad neu werth neu fanyleb ragnodedig (ac eithrio pH)*** | ***Trachywiredd fel % o'r crynodiad neu werth neu fanyleb ragnodedig (ac eithrio pH)*** | ***Terfyn canfod fel % o'r crynodiad neu werth neu fanyleb ragnodedig (ac eithrio pH)*** |
|---|---|---|---|
| Alwminiwm | 10 | 10 | 10 |
| Amoniwm | 10 | 10 | 10 |
| Antimoni | 25 | 25 | 25 |
| Arsenig | 10 | 10 | 10 |
| Bensen | 25 | 25 | 25 |
| Benso(a)pyren | 25 | 25 | 25 |
| Boron | 10 | 10 | 10 |
| Bromad | 25 | 25 | 25 |
| Cadmiwm | 10 | 10 | 10 |
| Clorid | 10 | 10 | 10 |
| Cromiwm | 10 | 10 | 10 |
| Lliw | 10 | 10 | 10 |
| Dargludedd | 10 | 10 | 10 |
| Copr | 10 | 10 | 10 |
| Cyanid[(1)] | 10 | 10 | 10 |
| 1.2-dicloroethan | 25 | 25 | 10 |
| Fflworid | 10 | 10 | 10 |
| pH crynodiad ïonau hydrogen (wedi ei fynegi mewn unedau pH) | 0.2 | 0.2 | |
| Haearn | 10 | 10 | 10 |
| Plwm | 10 | 10 | 10 |
| Manganîs | 10 | 10 | 10 |
| Mercwri | 20 | 10 | 20 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nicel | 10 | 10 | 10 |
| Nitrad | 10 | 10 | 10 |
| Nitraid | 10 | 10 | 10 |
| Ocsideiddrwydd[2] | | | |
| Plaleiddiaid a chynhyrchion perthynol[3] | 25 | 25 | 25 |
| Hydrocarbonau polysyclig aromatig[4] | 25 | 25 | 25 |
| Seleniwm | 10 | 10 | 10 |
| Sodiwm | 10 | 10 | 10 |
| Sylffad | 10 | 10 | 10 |
| Tetracloroethen[5] | 25 | 25 | 10 |
| Tetracloromethan | 20 | 20 | 20 |
| Tricloroethen[5] | 25 | 25 | 10 |
| | | | |
| Trihalomethanau: | | | |
| Cyfanswm[4] | 25 | 25 | 10 |
| Cymylogrwydd[6] | 10 | 10 | 10 |
| Cymylogrwydd[7] | 25 | 25 | 25 |

[1] Dylai'r dull dadansoddi ganfod cyfanswm y cyanid ym mhob ffurf.

[2] EN ISO 8476.

[3] Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i bob plaleiddiad unigol a byddant yn dibynnu ar y plaleiddiad dan sylw. Gellir cyflawni gwerthoedd ar gyfer ansicrwydd mesuriadau mor isel â 30% ar gyfer nifer o blaleiddiaid, a chaniateir gwerthoedd uwch hyd at 80% ar gyfer nifer o blaleiddiaid.

[4] Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r sylweddau unigol a bennir yn ôl 25% o'r gwerth paramedrig yn Nhabl B o Ran 1 o Atodlen 1.

[5] Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r sylweddau unigol a bennir yn ôl 50% o'r gwerth paramedrig yn Nhabl B o Ran 1 o Atodlen 1.

[6] Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r gwerth rhagnodedig o 4 NTU.

[7] Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r fanyleb o 1 NTU ar gyfer dŵr wyneb neu ddŵr daear y dylanwedir arno gan ddŵr wyneb.

**Tabl 3**

**Dull dadansoddi ar gyfer paramedrau cemegol a dangosyddion: ansicrwydd mesuriadau[1]**

| *Paramedr* | *Ansicrwydd mesuriadau fel % o'r gwerth paramedrig (ac eithrio pH)* |
|---|---|
| Alwminiwm | 25 |
| Amoniwm | 40 |
| Antimoni | 40 |
| Arsenig | 30 |
| Bensen | 40 |
| Benso(a)pyren[2] | 50 |
| Boron | 25 |
| Bromad | 40 |
| Cadmiwm | 25 |
| Clorid | 15 |
| Cromiwm | 30 |
| Dargludedd | 20 |

| | |
|---|---|
| Copr | 25 |
| Cyanid[3] | 30 |
| 1,2-dicloroethan | 40 |
| Fflworid | 20 |
| pH crynodiad ïonau hydrogen (wedi ei fynegi mewn unedau pH) | 0.2 |
| Haearn | 30 |
| Plwm | 25 |
| Manganîs | 30 |
| Mercwri | 30 |
| Nicel | 25 |
| Nitrad | 15 |
| Nitraid | 20 |
| Ocsideiddrwydd[4] | 50 |
| Plaleiddiaid[5] | 30 |
| Hydrocarbonau polysyclig aromatig[6] | 50 |
| Seleniwm | 40 |
| Sodiwm | 15 |
| Sylffad | 15 |
| Tetracloroethen[7] | 30 |
| Tricloroethen[7] | 40 |
| Trihalomethanau: cyfanswm[6] | 40 |
| Cyfanswm carbon organig (CCO)[8] | 30 |
| Cymylogrwydd[9] | 30 |

[1] Ni chaniateir defnyddio ansicrwydd mesuriadau fel goddefiant ychwanegol i'r gwerthoedd paramedrig a nodir yn Atodlen 1.

[2] Os na ellir cyflawni gwerth yr ansicrwydd mesuriadau, dylid dewis y dechneg orau sydd ar gael (hyd at 60%).

[3] Dylai'r dull dadansoddi ganfod cyfanswm y cyanid ym mhob ffurf.

[4] EN ISO 8476.

[5] Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i bob plaleiddiad unigol a byddant yn dibynnu ar y plaleiddiad dan sylw. Gellir cyflawni gwerthoedd ar gyfer ansicrwydd mesuriadau mor isel â 30% ar gyfer nifer o blaleiddiaid, a chaniateir gwerthoedd uwch hyd at 80% ar gyfer nifer o blaleiddiaid.

[6] Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r sylweddau unigol a bennir yn ôl 25% o'r gwerth paramedrig yn Nhabl B o Ran 1 o Atodlen 1.

[7] Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r sylweddau unigol a bennir yn ôl 50% o'r gwerth paramedrig yn Nhabl B o Ran 1 o Atodlen 1.

[8] Rhaid amcangyfrif yr ansicrwydd mesuriadau ar lefel 3mg/l o'r CCO. Rhaid defnyddio'r Canllawiau CEN 1484 ar gyfer canfod CCO a charbon organig tawdd.

[9] Rhaid amcangyfrif yr ansicrwydd mesuriadau ar lefel 1,0 NTU yn unol ag EN ISO 7027.

## RHAN 3

### Monitro ar gyfer y dos dangosol a nodweddion perfformiad dadansoddol

**6.** Caiff awdurdod lleol ddefnyddio strategaethau sgrinio dibynadwy i ddangos bod ymbelydredd yn bresennol mewn dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl.

**7.** Caiff y strategaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 6 gynnwys sgrinio ar gyfer—

(a) radioniwclidau penodol neu radioniwclid unigol; neu

(b) gweithgarwch alffa gros neu weithgarwch beta gros (pan fo'n briodol caniateir disodli gweithgarwch beta gros gan weithgarwch beta gweddilliol ar ôl didynnu'r crynodiad gweithgarwch K-40).

**Sgrinio ar gyfer radioniwclidau penodol neu sgrinio ar gyfer radioniwclid unigol**

**8.** Os yw un o'r crynodiadau gweithgarwch yn uwch nag 20% o'r gwerth deilliedig cyfatebol neu os yw'r crynodiad tritiwm yn uwch na'i werth paramedrig a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1, mae'n ofynnol dadansoddi'r radioniwclidau ychwanegol.

**9.** Rhaid i awdurdod lleol, wrth benderfynu pa radioniwclidau y mae'n ofynnol eu mesur ar gyfer pob cyflenwad, ystyried yr holl wybodaeth berthnasol am ffynonellau tebygol o ymbelydredd.

**Strategaethau sgrinio ar gyfer gweithgarwch alffa gros a gweithgarwch beta gros**

**10.** Yn ddarostyngedig i baragraff 11 y lefelau sgrinio a argymhellir yw—

(a) 0,1Bq/l ar gyfer gweithgarwch alffa gros; a

(b) 1,0Bq/l ar gyfer gweithgarwch beta gros.

**11.** Os yw'r gweithgarwch alffa gros yn uwch na 0,1Bq/l neu os yw'r gweithgarwch beta gros yn uwch na 1,0Bq/l, mae'n ofynnol dadansoddi ar gyfer radioniwclidau penodol.

**12.** Caiff Gweinidogion Cymru bennu lefelau sgrinio gwahanol ar gyfer gweithgarwch alffa gros a gweithgarwch beta gros pan fo'r awdurdod lleol yn gallu dangos bod y lefelau gwahanol yn cydymffurfio â dos dangosol o 0,1 mSv.

**Cyfrifo'r dos dangosol**

**13.** Rhaid cyfrifo'r dos dangosol o—

(a) y crynodiadau radioniwclid a fesurwyd a'r cyfernodau dos a nodwyd yn Atodiad III, Tabl A o Gyfarwyddeb 96/29/Euratom(**1**) ; neu

(b) gwybodaeth ddiweddarach a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru, ar sail y cymeriant dŵr blynyddol (730 l ar gyfer oedolion).

**14.** Pan fo'r fformiwla a ganlyn wedi ei bodloni, gellir tybio bod y dos dangosol yn is na'r gwerth paramedrig o 0,1mSv ac nid yw'n ofynnol cynnal unrhyw ymchwiliadau pellach—

**Crynodiadau deilliedig ar gyfer ymbelydredd mewn dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl [(1)]**

| Tarddiad | Niwclid | Crynodiad deilliedig |
|---|---|---|
| Naturiol | U-238[3] | 3,0 Bq/l |
| | U-234[3] | 2,8 Bq/l |
| | Ra-226 | 0,5 Bq/l |
| | Ra-228 | 0,2 Bq/l |
| | Pb-210 | 0,2 Bq/l |
| | Po-210 | 0,1 Bq/l |
| Artiffisial | C-14 | 240 Bq/l |
| | Sr-90 | 4,9 Bq/l |
| | Pu-239/Pu-240 | 0,6 Bq/l |
| | Am-241 | 0,7 Bq/l |
| | Co-60 | 40 Bq/l |
| | Cs-134 | 7,2 Bq/l |
| | Cs-137 | 11 Bq/l |
| | 1-131 | 6,2 Bq/l |

[(1)] Mae'r tabl hwn yn caniatáu ar gyfer priodoleddau radiolegol wraniwm yn unig, nid ei wenwyndra cemegol.

(**1**) OJ Rhif. L 159, 29.6.1996, t. 1, caiff hwn ei ddirymu a'i ddisodli'n rhagolygol gan Gyfarwyddeb 2013/59 Euratom (OJ L 13, 17.1.2014, t. 1) gydag effaith o 6 Chwefror 2018.

**Nodweddion perfformiad a dulliau dadansoddi**

**15.** Ar gyfer y paramedrau a'r radioniwclidau a ganlyn, rhaid i'r dull dadansoddi a ddefnyddir, o leiaf, allu mesur crynodiadau gweithgarwch gyda'r terfyn canfod a bennir isod:

| Paramedrau a radioniwclidau | Terfyn canfod (Nodiadau 1,2) | Nodiadau |
|---|---|---|
| Tritiwm | 10 Bq/l | Nodyn 3 |
| Radon | 10 Bq/l | Nodyn 3 |
| alffa gros | 0,04 Bq/l | Nodyn 4 |
| beta gros | 0,4 Bq/l | Nodyn 4 |
| U-238 | 0,02 Bq/l | |
| U-234 | 0,02 Bq/l | |
| Ra-226 | 0,04 Bq/l | |
| Ra-228 | 0,02 Bq/l | Nodyn 5 |
| Pb-210 | 0,02 Bq/l | |
| Po-210 | 0,01 Bq/l | |
| C-14 | 20 Bq/l | |
| Sr-90 | 0,4 Bq/l | |
| Pu-239/Pu-240 | 0,04 Bq/1 | |
| Am-241 | 0,06 Bq/l | |
| Co-60 | 0,5 Bq/1 | |
| Cs-134 | 0,5 Bq/l | |
| C2-137 | 0,5 Bq/l | |
| 1-131 | 0,5 Bq/1 | |

Nodyn 1: Rhaid cyfrifo'r terfyn canfod yn unol â safon ISO 11929: Pennu terfynau nodweddion (trothwy penderfyniad, terfyn canfod a therfynau'r cyfwng hyder) ar gyfer mesur ymbelydredd ïoneiddio — Hanfodion a chymhwyso, gyda thebygolrwydd gwallau o'r math cyntaf a'r ail fath o 0,05 yr un.

Nodyn 2: Rhaid cyfrifo ansicrwydd mesuriadau, a chyflwyno adroddiadau arnynt, fel ansicrwydd safonol cyflawn, neu fel ansicrwydd estynedig gyda ffactor ehangu o 1,96 yn unol â Chanllaw yr ISO sef 'Guide for the Expression of Uncertainty in Measurement'.

Nodyn 3: Y terfyn canfod ar gyfer tritiwm a radon yw 10% o'i werth paramedrig o 100 Bq/1.

Nodyn 4: Y terfyn canfod ar gyfer gweithgarwch alffa gros a gweithgarwch beta gros yw 40% o'r gwerthoedd sgrinio o 0,1 a 1,0 Bq/1 yn y drefn honno.

Nodyn 5: Nid yw'r terfyn canfod ond yn gymwys i'r sgrinio cychwynnol ar gyfer dos dangosol ar gyfer ffynhonnell ddŵr newydd; os yw'r gwirio cychwynnol yn dangos nad yw'n debygol bod lefel yr Ra-228 yn uwch nag 20% o'r crynodiad deilliedig, caniateir cynyddu'r terfyn canfod i 0,08 Bq/1 ar gyfer mesuriadau penodol arferol ar gyfer niwclidau Ra-228, nes y bydd yn ofynnol cynnal ail-wiriad dilynol.

# ATODLEN 5

Rheoliad 16

## Cofnodion

**Cofnodion cychwynnol**

**1.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol gofnodi nifer y cyflenwadau dŵr preifat yn ei ardal, ac ar gyfer pob cyflenwad rhaid iddo gofnodi—

(a) enw'r cyflenwad, ynghyd â nod adnabod unigryw;

(b) y math o ffynhonnell;

(c) y lleoliad daearyddol gan ddefnyddio cyfeirnod grid;

(d) amcangyfrif o nifer y bobl a gyflenwir;

(e) amcangyfrif o'r cyfaint cyfartalog dyddiol o ddŵr a gyflenwir mewn metrau ciwbig;

(f) y math o fangreoedd a gyflenwir;

(g) manylion unrhyw broses drin, ynghyd â'r lleoliad.

(2) Rhaid iddo adolygu a diweddaru'r cofnodion o leiaf unwaith y flwyddyn.

(3) Rhaid iddo gadw'r cofnod am o leiaf 30 mlynedd.

**Cofnodion ychwanegol**

**2.**—(1) Ar gyfer pob cyflenwad y cyfeirir ato ym mharagraff 1(1), rhaid i'r awdurdod lleol gofnodi pob un o'r canlynol o fewn 28 diwrnod ar ôl iddynt ddigwydd—

(a) plan a disgrifiad o'r cyflenwad;

(b) rhaglen fonitro'r cyflenwad;

(c) yr asesiad risg;

(d) crynodeb o ganlyniadau'r asesiad risg;

(e) crynodeb o'r rhesymau dros wneud penderfyniad i leihau monitro paramedr penodol o dan Ran 4 o Atodlen 2, neu ei eithrio yn llwyr;

(f) dyddiad, canlyniadau a lleoliad unrhyw samplu a dadansoddi mewn perthynas â'r cyflenwad hwnnw, a'r rheswm dros gymryd y sampl;

(g) canlyniadau unrhyw ymchwiliad a gynhelir yn unol â'r Rheoliadau hyn;

(h) unrhyw awdurdodiad;

(i) unrhyw hysbysiadau a gyflwynir o dan adran 80 o'r Ddeddf, neu reoliad 20;

(j) unrhyw gamau gweithredu y cytunir sydd i'w cymryd gan unrhyw berson o dan y Rheoliadau hyn;

(k) unrhyw gais a wneir i'r awdurdod lleol i gyflawni gwaith samplu a dadansoddi, cynnal asesiad risg neu roi cyngor;

(l) crynodeb o unrhyw gyngor a roddir mewn perthynas â'r cyflenwad.

(2) Rhaid iddo gadw'r asesiad risg a'r cofnodion samplu a dadansoddi am o leiaf 30 mlynedd, a chadw pob cofnod arall o dan y paragraff hwn am o leiaf 5 mlynedd.

# ATODLEN 6

Rheoliad 23

## Ffioedd

**Ffi**

**1.** Caiff yr awdurdod lleol godi ffi, sy'n daladwy pan geir anfoneb ar ei chyfer, am y gweithgarwch a nodir yn y tabl a ganlyn, a swm y ffi fydd cost resymol darparu'r gwasanaeth, yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau a ganlyn.

| **Gwasanaeth** | | **Uchafswm y ffi (£)** |
|---|---|---|
| Asesiad risg (pob asesiad): | | |
| | cyflenwad rheoliad 9 | 700 |
| | cyflenwadau rheoliadau 10 ac 11 | 300 |
| Samplu (am bob ymweliad) [(1)]: | | 100 |
| Ymchwiliad (am bob ymchwiliad): | | 250 |
| Rhoi awdurdodiad (am bob awdurdodiad): | | 100 |
| Dadansoddi sampl— | | |
| | a gymerir o dan reoliad 10 neu 11: | 25 |
| | a gymerir yn ystod monitro ar gyfer paramedrau Grŵp A: | 110 |
| | a gymerir yn ystod monitro ar gyfer paramedrau Grŵp B: | 600 |

[(1)] Nid oes ffi'n daladwy pan gymerir ac y dadansoddir sampl dim ond er mwyn cadarnhau canlyniadau dadansoddi sampl flaenorol neu eu hegluro.

**Y personau sy'n atebol i dalu**

**2.**—(1) Mae unrhyw berson sy'n gofyn am unrhyw beth o dan y Rheoliadau hyn yn atebol am y gost.

(2) Ac eithrio pan fo is-baragraff (1) yn gymwys, mae ffioedd yn daladwy, fel a bennir yn yr anfoneb, gan y person perthnasol.

(3) Pan fo mwy nag un person yn atebol, wrth benderfynu pwy ddylai wneud taliad i'r awdurdod lleol—

(a) caiff yr awdurdod lleol rannu'r tâl rhyngddynt; a

(b) rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw gytundeb neu ddogfen arall a ddangosir iddo ynglŷn â'r telerau y cyflenwir y dŵr oddi tanynt.